**COFRESTR BUDDIANNAU'R AELODAU – ADRODDIAD AR Y DIWEDDARAF I AELODAU'R PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD**

**Diben**

1. Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y Gofrestr.

   **Gweithredu**

2. Dim; er gwybodaeth yn unig.

   **Diweddariad**

3. Yn ddiweddar dangoswyd mwy o ddiddordeb yn y Gofrestr nag ers iddi gael ei chyhoeddi am y tro cyntaf. Cafwyd nifer o ymholiadau gan y wasg a'r cyhoedd, a derbyniwyd dau gais i weld y gofrestr lawn.

   **Cyhoeddi'r Gofrestr**

4. Bydd yr adroddiad chwarterol nesaf ar Gofrestr Buddiannau'r Aelodau yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr. Mae'r adroddiad eisoes wedi cael ei ddrafftio a'i ddosbarthu i'r Aelodau er mwyn iddynt gyflwyno'u sylwadau arno. Disgwylir i'r Adroddiad gael ei gyhoeddi cyn diwedd y tymor presennol.

**Y Swyddfa Gyflwyno**

**Rhagfyr 2000**